**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

## CYNNWYS

*Cyflwyniad*

1 Trosolwg

*Diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*

2 Dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol

*Cyffredinol*

3 Enw byr a chychwyn

# Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas â dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol.

**Gan ei bod wedi ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chael cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

*Cyflwyniad*

**1 Trosolwg**

Mae'r Ddeddf hon yn diwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) fel bod y ddyletswydd sydd ar bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na'r cyllid y mae'n ei gael yn gymwys dros gyfnod o dair blynedd gan ddechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol yn hytrach na bod yn gymwys i bob blwyddyn ariannol.

*Diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*

**2 Dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol**

(1) Mae Pennod 6 o Ran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-adran (1) o adran 175 (dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol) rhodder—

"(1) Each Local Health Board must, in respect of each three-year accounting period, perform its functions so as to secure that its expenditure which is attributable to the performance by it of its functions in that period (not including its general ophthalmic services expenditure) does not exceed the aggregate of—

(a) the amount allotted to it for each financial year in that period under section 174(1)(b),

(b) any sums received by it in each financial year in that period under any other provision of this Act, and

(c) any sums received by it in each financial year in that period otherwise than under this Act for the purpose of enabling it to defray any such expenditure."

(3) Ar ddiwedd adran 175 mewnosoder is-adran newydd—

> “(8) “Three-year accounting period” means a period of three years which begins with the first day of a financial year, so that the first begins with 1 April 2014 and ends with 31 March 2017 and the second begins with 1 April 2015 and ends with 31 March 2018 (and so on).”

(4) Mae adran 176 (terfynau adnoddau ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol) wedi ei diddymu.

(5) Ym mharagraff 1(1) o Atodlen 8 (darpariaeth bellach ynghylch gwariant y Byrddau Iechyd Lleol) yn lle “to 176” rhodder “and 175”.

*Cyffredinol*

**3 Enw byr a chychwyn**

(1) Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2013.

(2) Daw’r Ddeddf hon i rym ar 1 Ebrill 2014.